**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Medi 2ail, 2024 am 7.30 y.h. yn Neuadd Y Rhos.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Jaci Jones, Nesta Roberts, Dafydd Williams, Robert Williams. Y clerc Phil Hughes.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gwenllian Haf, Tim Rosa, Gareth Williams, Wenda Williams.

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:** Nid oedd cyhoeddiadau

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Gorffennaf 8fed, 2024:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir a llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion:**

i. **Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
**Drych ar lôn Rhoshirwaun sydd yn troi am Bencaerau**: Ymateb gan Gyngor Gwynedd yn nodi nad ydynt yn cefnogi gosod drychau oherwydd bod tystiolaeth yn profi gall drychau gynyddu risgiau diogelwch. Gan fod y lôn yn un 40mya ac maent yn ystyried gosod drych ar lonydd uwch na 30mya fe benderfynwyd mynd yn ôl at Gyngor Gwynedd i bwysleisio pwysigrwydd cael drych yno.
**Safle Ysgol Llidiardau** – Ymateb gan Gyngor Gwynedd yn dweud eu bod yn edrych ar y safle o dan gynllun Dy Gwynedd ac y bydd tendrau yn mynd allan yn yr wythnosau nesaf.
**Ty Ysgol Deunant** – Ymateb gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau bod tendrau wedi dod yn ôl a'u bod yn y broses o werthuso'r tendr a phenodi contractwr.
**Yn Felin Uchaf mae coed wedi tyfu ac yn mynd dros y man pasio wrth y bont –** Mae llythyr gordyfiant wedi cael ei yrru at berchennog y tir.
Mae gordyfiant ar y ffordd rhwng Methlem a Rhydlios, Rhoshirwaun – Caiff archwiliad ei gynnal yn fuan gan Gyngor Gwynedd.

ii. **Materion yr Eglwys Newydd** – Mae'r cynnydd dros yr haf wedi bod yn siomedig, Mae Darren (Gallagher) yn siomedig am y ffaith ei fod yn disgwyl am y sgaffaldau i'r ddau dalcen. Dros yr haf mae'r tywydd wedi rhwygo'r ffelt ar y to felly mae'n angenrheidiol bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn yr hydref. Mae'r sgaffaldau i fod i fynd i fyny yn ystod yr wythnos yma.

iii. **Y Fynwent** – Mae archwiliad wedi ei wneud ar y fynwent ac mae nifer o angladdau wedi eu cynnal heb wybodaeth na thaliadau felly penderfynwyd cysylltu â chwmnïau ymgymerwyr.

iv. **Y Cae Chwarae** – Nid oedd diweddariad ar y cae chwarae.

**5) Man Llwytho ym mhentref Aberdaron.**

Trafododd y cynghorwyr a phenderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am ddiweddariad yn dilyn arolwg yn y pentref am y man llwytho.

**6) Ymgynghoriad system pleidlais sengl drosglwyddadwy Cyngor Gwynedd**

Trafododd y cynghorwyr y system newydd mae'r Cyngor Sir eisiau gyflwyno i'r etholiadau yng Ngwynedd, mae pob aelod wedi derbyn yr e-bost i'w lenwi os ei dymunir.

**7) Arwydd 'ABERDARON' rhwng Hendre Bach a Ty'n Mynydd wedi diflannu?**

Gofynnodd y cynghorydd Gareth Williams i adrannau cyngor Gwynedd a does neb yn gwybod lle mae'r arwydd wedi mynd. Felly penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd os yw'n bosib cael un newydd yn ei le.

**8) Gohebiaethau**

- Capel Newydd Nanhoron a Hyfforddiant Codi Waliau Cerrig – Er gwybodaeth, Nos Wener Medi 13eg am 7:30 y.h.
- Rhybudd - Cau'r Ffordd o Lôn Uwchmynydd heibio Capel Deunant i'r Groeslon ger Tŷ'r Ysgol, Aberdaron – Medi 3ydd am 3 diwrnod.
- Arolwg gan Heddlu Gogledd Cymru - Dweud eich dweud ar sut mae eich cymdogaeth yn cael ei phlismona – Linc wedi'i yrru os yw'r aelodau yn dymuno ei lenwi.
- Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar y cynnig i ymestyn ei Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol ar gyfer Rheoli Cŵn am gyfnod o dair blynedd. Linc wedi'i yrru os yw'r aelodau yn dymuno ei lenwi.
- Dyddiadau hyfforddiant – Gorffennaf, Awst a Medi Unllais Cymru – Wedi ei yrru allan er gwybodaeth.
- Arwyddion 'Croeso' uniaith Gymraeg – Cais yn gallu cael ei gwneud i Briffyrdd Cyngor Gwynedd.
- Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau'r Ffordd o'r groesffordd i'r gogledd o Bwll Melyn, Rhiw) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) - 2ail o Fedi am fis – gwaith am gymryd 5 diwrnod i'w gwblhau.
- Cadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 (ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd) - Er gwybodaeth.

**9) Ceisiadau am gyfraniadau ariannol a dderbyniwyd ers cyfarfod mis Mawrth**

Gwnaed y cyfraniadau isod o dan bwerau Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:

Cylch Meithrin Aberdaron: penderfynwyd rhoi cyfraniad o £300.

**10) Cynllunio**

C24/0554/30/LL - Cae Graig, Rhoshirwaun, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8HS - **Dim gwrthwynebiad a dim sylwadau.**
C24/0629/30/LL - Tir Topyn, Rhydlios, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8LE - **Dim gwrthwynebiad a dim sylwadau.**
C24/0592/30/LL - Plot Ger Murmur Y Môr, Aberdaron, Pwllheli, LL53 8BE - **Dim gwrthwynebiad a dim sylwadau.**
C24/0627/30/TC - Morfa Bach, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8BD - **Dim gwrthwynebiad a dim sylwadau.**
C24/0682/30/DT - Garreg Fawr, Uwchmynydd, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DA - **Dim gwrthwynebiad a dim sylwadau.**
C24/0686/30/AC - Cwt Chwarel, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8BL - **Dim gwrthwynebiad a dim sylwadau.**

**11) Ariannol**
i) HSBC yn cadarnhau'r gallu i eraill ganiatáu taliadau ar-lein. - Penderfynu ychwanegu hyn i'r cyfrif fel bod rhywun yn gorfod caniatáu'r taliadau ar-lein yn ychwanegol i'r clerc fel yr awgrymir yn yr archwiliad mewnol.

| | |
|---|---|
| *Derbyniadau* | |
| Pwyllgor Cae Chwarae (Offer) | £18,050 |
| Cerrig G & S (Heulwen Roberts) | £105 |
| Cyngor Gwynedd (Llwybrau) | £681.50 |
| P Ltd Funeral (Richard Hefin Parry) | £270 |
| Cyngor Gwynedd (praesept): | £8,250 |
| Scottish Power (wayleave) | £45.66 |
| | |
| *Taliadau* | |
| Ffioedd banc HSBC (Gorffennaf ac Awst) | £12.40 |
| Nesta Roberts (CCTV  Gorffennaf ac Awst) | £26.20 |
| Phil Hughes (Cyflog Gorffennaf ac Awst) | £520 |
| HMRC (PAYE Gorffennaf ac Awst) | £130 |
| Cyngor Gwynedd (Archwiliad Mewnol) | £384 |

**12) Materion ffyrdd a llwybrau**

1) Arwydd yn Seithbont , Botwnnog wedi troi ac yn pwyntio'r ffordd anghywir – bydd angen cysylltu â Chyngor Gwynedd a gadael i glerc cyngor Botwnnog wybod.

2) Nid yw'r gordyfiant wrth fan pasio Meillionydd Bach wedi ei sortio felly angen ailgysylltu efo Cyngor Gwynedd.

3) Mae tyllau yn y lôn wrth Morfa Mawr angen cael eu hail wynebu – cysylltu â’r Cyngor.

4) Yn swyddfa’r Cyngor ym Mhwllheli nid oes man parcio ‘Rhiant a Phlentyn’ felly mae’n anodd wrth fynd a babi yno i'w gofrestru.

5) Mae dŵr wedi hel ar y lon ar y ffordd i mewn i Aberdaron wrth yr arwydd coll.

6) Yn y toiled cyhoeddus yn y pentref mae’r tapiau dŵr yn gollwng ac nid yw wedi bod yn cael ei lanhau i safon dderbyniol dros yr Haf.

**7**) Cwestiwn wedi codi, oes gan gychod ‘Sealegs’ yr hawl i fynd yn ôl ac ymlaen ar y traeth yn Aberdaron gan nad oes gan unrhyw gerbyd arall hawl.

8) Ymholiad wedi dod ynglŷn â’r nodiadau ar y wefan nad ydynt ar gael yn Saesneg ac nid yw’r botwm cyfieithu’n gweithio. Codwyd y mater efo’r cynghorwyr ond angen gwirio efo Unllais Cymru.

9) Llythyr wedi cael ei ganfod o Ionawr 2004 gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau mai nhw sydd berchen y safleoedd parcio anabl wrth Eglwys Sant Hywyn. Nid ydynt yn safleoedd addas i gadair olwyn ac mae angen eu gwella.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Lun, Hydref 14eg, 2024**

**yn Neuadd y Rhiw 7.30y.h.**